**Vaughan Gething AS/MS**
**Gweinidog yr Economi**
**Minister for Economy**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref VG/00753/22

Delyth Jewell AS
Cadeirydd Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol
SeneddDiwylliant@senedd.cymru

14 Medi 2022

Annwyl Delyth,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 14 Gorffennaf ynghylch ein gweithgareddau i gefnogi tîm pêl-droed dynion Cymru wrth iddynt gymryd rhan yng Nghwpan y Byd yn Qatar yn ddiweddarach eleni. Yn eich llythyr, rydych yn gofyn am yr wybodaeth ddiweddaraf am amcanion penodol, adnoddau, a chyfathrebu â Llywodraeth y DU a phartneriaid eraill.

Mae Llywodraeth Cymru yn gobeithio manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd a'r buddion a geir o gyfranogiad tîm pêl-droed dynion hŷn Cymru yng Nghwpan y Byd FIFA 2022 yn Qatar. Ymhlith amcanion Llywodraeth Cymru yng nghyswllt Cwpan y Byd mae:

- hyrwyddo Cymru
- cyflwyno ein gwerthoedd
- sicrhau diogelwch dinasyddion Cymru yn y twrnamaint
- sicrhau gwaddol positif a pharhaol o'n cyfranogiad yng Nghwpan y Byd

Fel Gweinidog yr Economi, rwyf wedi cymryd yr awenau o ran cydgysylltu gweithgareddau Llywodraeth Cymru yng nghyswllt Cwpan y Byd.

Mae cynnydd wedi'i wneud mewn perthynas â'n pedwar amcan ar gyfer Cwpan y Byd:

Hyrwyddo Cymru

Ers i Gymru gymhwyso ar gyfer Cwpan y Byd ddechrau mis Mehefin, mae rhaglen o weithgareddau wedi'i rhoi ar waith eisoes er mwyn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd hyn. Mae rhaglen Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar bedwar llinyn creiddiol:

- Ymgyrch farchnata estynedig - Bydd yr ymgyrch yn canolbwyntio ar farchnadoedd rhyngwladol creiddiol a dargedir, a hynny ar draws meysydd brand, busnes a thwristiaeth, yn ogystal ag ymgyrch gref yng Nghymru. Ymhlith y marchnadoedd y mae'r ymgyrch yn eu targedu mae Cymru, UDA, a'r DU (Lloegr yn bennaf), a cheir rhywfaint o weithredu yn Qatar. Mae'r ymgyrch farchnata hefyd yn ceisio cyflawni gweithgareddau drwy waith gyda'n cenhadon mwyaf – y cefnogwyr a'r lleisiau o Gymru – yn ogystal â chyda phartneriaid, Cymry ar wasgar, a Llysgenhadon Byd-eang Cwpan y Byd, a fydd

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

yn lleisiau cryf a dylanwadol dros Gymru yn ein gwaith drwyddo draw. Mae cyllideb o £2.5 miliwn yn ei lle i gyflawni ein rhaglen farchnata estynedig. Rydym yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth y DU ar gyfleoedd i hyrwyddo Cymru yn Qatar.

- Cwpan y Byd – y Gronfa Cefnogi Partneriaid - Er y bydd llawer o sefydliadau, yng Nghymru ac yn fyd-eang, yn ceisio cefnogi eu hamrywiaeth eu hunain o weithgareddau i ddathlu'r achlysur gwych hwn, mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu cronfa sy'n ceisio ychwanegu gwerth at nifer fach o brosiectau eithriadol a all wireddu ein hamcanion creiddiol. Rwyf yn bwriadu cyhoeddi canlyniad y broses hon yn fuan.

- Ymweliadau ac ymgysylltu gweinidogol – Gan anelu at helpu i hyrwyddo Cymru a chyflawni diplomyddiaeth, bydd Gweinidogion yn mynychu amryw o ddigwyddiadau yn ogystal â phob un o gemau grŵp Cymru. Prif nod yr ymweliadau gweinidogol fydd cefnogi mentrau a fydd yn helpu i dyfu'r economi, codi proffil Cymru, a hyrwyddo Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang. Byddaf yn anfon dirprwyaeth o dri swyddog i gefnogi, rheoli, a chydgysylltu amryw o weithgareddau o fewn marchnad Qatar. Wrth gwrs, bydd yr aelodau staff hyn yn gweithio ochr yn ochr â'n staff cysylltiadau rhyngwladol sydd wedi'u lleoli yn ein swyddfa ranbarthol yn y Dwyrain Canol. Mae'r dyletswyddau hyn yn cynnwys cefnogi gweithgareddau marchnata, diplomyddol, gweinidogol a logistaidd.

- Ymgysylltu drwy Swyddfeydd Tramor Llywodraeth Cymru: Byddwn yn defnyddio Swyddfeydd Tramor Llywodraeth Cymru i sicrhau'r cyfle gorau i hyrwyddo Cymru ac i ymgysylltu â rhanddeiliaid rhyngwladol allweddol, yn enwedig yn Qatar a Dubai, yr Unol Daleithiau ac Ewrop. Yn UDA, er enghraifft, mae hyn yn debygol o gynnwys digwyddiadau yn Washington, Efrog Newydd, Atlanta, Chicago a Los Angeles. I gyflawni hyn, rydym yn gweithio'n agos gyda'n Cenhadon o Lywodraeth Cymru (yn yr Unol Daleithiau, Dubai a Siapan) ac yn ymgysylltu â Chymry ar wasgar.

Cyflwyno ein gwerthoedd

Dyma gyfle i ddangos bod Cymru yn genedl o werthoedd ar lwyfan y byd. Byddwn yn gwneud hyn drwy ein hymgyrch farchnata estynedig a'n gwaith ymgysylltu rhyngwladol, gan gynnwys drwy storïau amrywiol am Gymru a Chymru fel cenedl noddfa.

Sicrhau diogelwch dinasyddion Cymru yn y twrnamaint

Mae gwaith ymgysylltu parhaus yn mynd rhagddo gyda Llywodraeth y DU drwy gyfarfodydd rheolaidd â'r Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu; yr heddlu; y Weinyddiaeth Amddiffyn; Cymdeithas Bêl-droed Cymru; Cymdeithas Bêl-droed Lloegr; a Llysgenhadaeth y DU yn Qatar ar faterion sy'n ymwneud â diogelwch dinasyddion Cymru. Sefydlwyd sianeli ar gyfer cysylltu'n rheolaidd â chydweithwyr ym maes Cysylltiadau Rhyngwladol ac yn Llysgenhadaeth y DU i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am faterion diogelwch gan Oruchaf Bwyllgor Qatar (y pwyllgor trefnu ar gyfer Cwpan y Byd).

Sicrhau gwaddol positif a pharhaol yn sgil Cwpan y Byd

Ystyriaeth fwy hirdymor yw sut y bydd Cymru yn sicrhau gwaddol positif a pharhaol o'n cyfranogiad yn y twrnamaint. Mae ein Rhaglen Lywodraethu yn ymrwymo i fuddsoddi yn ein cyfleusterau chwaraeon, gyda chyllideb gyfalaf o £8 miliwn y flwyddyn wedi'i dyrannu i Chwaraeon Cymru dros y tair blynedd nesaf (2022-24) i gefnogi buddsoddiadau mewn cyfleusterau i'r holl chwaraeon. Rydym hefyd yn buddsoddi mewn cyfleusterau drwy'r rhaglen gyfalaf i ysgolion ac yn uniongyrchol drwy awdurdodau lleol. Wrth gwrs, ceir cyfleoedd ehangach i sicrhau gwaddol yn sgil Cwpan y Byd – er budd ein heconomi, byd addysg, y Gymraeg, y celfyddydau a diwylliant, er enghraifft – ac rydym yn bwriadu manteisio i'r eithaf ar yr holl opsiynau.

Gobeithiaf fod yr wybodaeth hon o gymorth i’r Pwyllgor.

Yn gywir,

**Vaughan Gething AS/MS**
Gweinidog yr Economi
Minister for Economy